# PARLIAMENT & ASSEMBLIES

## LEGISLATION & TREATIES

### THE NATIONAL ASSEMBLY OF WALES

The following Letters Patent were signed by Her Majesty The Queen on the Thirteenth day of June 2018 in respect of the Regulation of Registered Social Landlords (Wales) Bill anaw 4

ELIZABETH THE SECOND by the Grace of God of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland and of Our other Realms and Territories Queen Head of the Commonwealth Defender of the Faith To Our Trusty and well beloved the members of the National Assembly for Wales

GREETING:

FORASMUCH as one or more Bills have been passed by the National Assembly for Wales and have been submitted to Us for Our Royal Assent by the Clerk of the National Assembly for Wales in accordance with the Government of Wales Act 2006 the short Titles of which Bills are set forth in the Schedule hereto but those Bills by virtue of the Government of Wales Act 2006 do not become Acts of the National Assembly for Wales nor have effect in the Law without Our Royal Assent signified by Letters Patent under Our Welsh Seal signed with Our own hand We have therefore caused these Our Letters Patent to be made and have signed them and by them do give Our Royal Assent to those Bills which shall be taken and accepted as good and perfect Acts of the Assembly and be put in due execution accordingly COMMANDING ALSO the Keeper of Our Welsh Seal to seal these Our Letters with that Seal.

IN WITNESS WHEREOF We have caused these Our Letters to be made Patent

WITNESS Ourself at The Court at Buckingham Palace
the Thirteenth day of June 2018
in the Sixty-sixth year of Our Reign
By The Queen Herself Signed with Her Own Hand.

SCHEDULE

Regulation of Registered Social Landlords (Wales) Bill

Cafodd y Breinlythyrau a ganlyn eu llofnodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines ar y Trydydd dydd ar ddeg o Fehefin 2018 mewn perthynas â Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) dccc 4

ELISABETH YR AIL drwy Ras Duw Brenhines Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a'n Teyrnasoedd a'n Tiriogaethau eraill Pennaeth y Gymanwlad Amddiffynnydd y Ffydd At Ein Ffyddlon ac anwylaf aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

CYFARCHION:

YN GYMAINT Â BOD un neu ragor o Filiau, y nodir eu henwau byr yn yr Atodlen i hyn, wedi eu pasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi eu cyflwyno i Ni ar gyfer Ein Cydsyniad Brenhinol gan Glerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ond na ddaw'r Biliau hynny, yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, yn Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac na fydd iddynt effaith Gyfreithiol heb Ein Cydsyniad Brenhinol a ddynodir drwy Freinlythyrau o dan Ein Sêl Gymreig a'n llofnod Ein Hunain, yr Ydym felly wedi peri gwneud y rhain, Ein Breinlythyrau ac wedi eu llofnodi, a thrwyddynt rhoddwn Ein Cydsyniad Brenhinol i'r Biliau hynny sydd i'w cymryd a'u derbyn fel Deddfau da a pherffaith y Cynulliad a'u rhoi ar waith yn briodol yn unol â hynny GAN ORCHYMYN HEFYD Geidwad Ein Sêl Gymreig i selio'r rhain, Ein Llythyrau â'r Sêl honno.

YN DYSTIOLAETH O HYNNY yr Ydym wedi peri gwneud y rhain, Ein Llythyrau yn Agored

TYSTIED Ein Hunain yn Ein Llys ym Mhalas Buckingham
ar y Trydydd dydd ar ddeg o Fehefin 2018
yn y Chweched flwyddyn a thrigain o'n Teyrnasiad
Llofnodwyd gan y Frenhines Ei Hunan â'i Llaw Ei Hunan.

ATODLEN

Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)

(3053621)